

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu a chynnal a chadw meddylfryd o iechyd, diogelwch a diogeledd mewn chwaraeon, hamdden, yr awyr agored a mathau eraill o weithgareddau cysylltiedig.

Mae'r safon hon yn cynnwys tri deilliant, sef:

1. adnabod peryglon ac asesu risgiau i iechyd, diogelwch a diogeledd
2. cyfrannu at ddatblygu a chynnal a chadw gweithdrefnau gweithredu brys
3. cyfrannu at gynnal a chadw a gwella gweithdrefnau ar gyfer gwarchod cyfranogwyr sy'n agored i niwed

Mae'r safon hon ar gyfer y rhai hynny sydd â chyfrifoldebau arolygol neu ddatblygu chwaraeon, ac ar gyfer staff sy'n gweithio yn yr awyr agored a chanddynt rywfaint o brofiad ac sy'n gallu gweithio heb oruchwyliaeth uniongyrchol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Adnabod peryglon ac asesu'r risgiau i iechyd, diogelwch a diogeledd

*
*

1. archwilio cyfleusterau, cyfarpar a gweithgareddau am unrhyw **berylglon**
2. casglu gwybodaeth oddi wrth bob un o'r **budd-ddeiliaid** am **berylglon** posib
3. cofnodi pob **perylgl** o bwys, pwy sy'n agored i'r peryglon hyn, ac unrhyw **weithdrefnau** diogelwch cyfredol
4. asesu'r **risgiau** sy'n gysylltiedig â'r **perylglon** hyn a ph'un ai a yw'r **risgiau** yn dderbyniol yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau'r sefydliad
5. cyfeirio materion sydd y tu allan i'ch swyddogaeth at sylw person sydd ag arbenigedd penodol pan fydd asesu'r **risgiau** y tu hwnt i lefel eich cymhwyster
6. adrodd am unrhyw **risgiau** annerbyniol gan ddilyn rheoliadau a gweithdrefnau'r sefydliad
7. parhau i fonitro am **berylglon** newydd ac asesu eu **risgiau** a hynny'n rheolaidd

Cyfrannu at ddatblygu a chynnal a chadw gweithdrefnau gweithredu arferol a brys

8. gosod y **gweithdrefnau** ar waith er mwyn cadw **risgiau** i lefel dderbyniol yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau'r sefydliad
9. rhoi i'r **budd-ddeiliaid** y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am bolisiâu a **gweithdrefnau** a'u hannog a'u hysgogi i ddilyn y gweithdrefnau
10. ymyrryd pan na fydd gweithdrefnau'n cael eu dilyn
11. cyfrannu at adolygu ac addasu gweithdrefnau pan fydd angen

12. casglu adborth oddi wrth **fudd-ddeiliaid** ar ba mor dda mae'r gweithdrefnau'n gweithio

Cyfrannu at gynnal a chadw a gwella gweithdrefnau er mwyn gwarchod cyfranogwyr sy'n agored i niwed

13. cyflawni eich cyfrifoldebau dros warchod cyfranogwyr sy'n agored i niwed yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau'r sefydliad
14. ymyrryd pan na fydd **gweithdrefnau**'n cael eu dilyn
15. annog **eraill** i riportio unrhyw amheuan sydd ganddynt ynghylch **cam-drin** posib
16. dilyn y **gweithdrefnau cywir** pan gyfyd amheuan ynghylch **cam-drin** posib
17. cadw at reoliadau a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cynnal a chadw a diogelu data
18. cefnogi eraill er mwyn iddynt gadw at reoliadau a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cynnal a chadw a diogelu data
19. sicrhau bod staff sy'n ymwneud ag achosion o gam-drin tybiedig yn cael unrhyw gefnogaeth all fod ei hangen arnynt
20. casglu **adborth** oddi wrth **eraill** ar ba mor dda mae'r **gweithdrefnau**'n gweithio
21. defnyddio'r adborth hwn i wella gweithdrefnau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Adnabod peryglon ac asesu risgiau i iechyd, diogelwch a diogeledd

*
*

1. y weithdrefn gogyfer ag archwilio cyfleusterau, cyfarpar a gweithgareddau am beryglon
2. y gweithdrefnau gogyfer â chasglu a chofnodi gwybodaeth oddi wrth bob un o'r budd-ddeiliaid am beryglon posib
3. gofynion cyfreithiol a sefydliadol sy'n gysylltiedig â riportio peryglon a risgiau
4. y math o wybodaeth sydd angen ei chasglu er mwyn cynnal asesiad risg effeithiol
5. sut i asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r peryglon hyn
6. cyfyngiadau technegol wrth asesu risgiau, yr achosion hynny pryd y bydd asesu'r risgiau y tu hwnt i lefel eich cymhwyster a pham y dylech gyfeirio'r mater at sylw person sydd ag arbenigedd penodol
7. sut i riportio unrhyw risgiau annerbyniol
8. pam ei bod yn bwysig parhau i fonitro am beryglon newydd ac asesu eu risgiau'n rheolaidd
9. yr amgylchiadau pryd y byddai'n rhaid rhoi gwybod i awdurdodau am ddiffyg rheoli risgiau yn effeithiol

Cyfrannu at ddatblygu a chynnal a chadw gweithdrefnau arferol a brys

10. y broses gogyfer â rhoi gweithdrefnau mewn grym er mwyn cadw risgiau i lefel dderbyniol
11. technegau cyfathrebu ac ysgogi gogyfer â rhoi'r wybodaeth i fudd-ddeiliaid
12. pwysigrwydd ymyrryd pan na fydd gweithdrefnau'n cael eu dilyn
13. y broses gogyfer ag adolygu ac addasu gweithdrefnau pan fydd angen

14. pryd i geisio a chael arbenigedd penodol wrth ddatblygu gweithdrefnau diogelwch a sut i wneud hynny
15. technegau casglu a dadansoddi data

Cyfrannu at gynnal a chadw a gwella gweithdrefnau ar gyfer diogelu cyfranogwyr sy'n agored i niwed* *

16. eich cyfrifoldebau dros warchod cyfranogwyr sy'n agored i niwed yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau'r sefydliad
17. pam ei bod yn bwysig annog budd-ddeiliaid i riportio unrhyw amheuan sydd ganddynt ynghylch cam-drin posib
18. y gweithdrefnau cywir pan gyfyd amheuan ynghylch cam-drin posib
19. pam ei bod yn bwysig diogelu, ac annog eraill i ddiogelu, gwybodaeth gyfrinachol, a'u cyfrifoldebau cyfreithiol i wneud hynny
20. canllawiau a gweithdrefnau i'w dilyn wrth sicrhau bod staff sy'n ymwneud ag achosion o gam-drin tybiedig yn derbyn y gefnogaeth all fod ei hangen arnynt
21. dulliau o gasglu adborth oddi wrth fudd-ddeiliaid ar ba mor dda mae gweithdrefnau'n gweithio
22. sut i ddefnyddio'r adborth hwn i wella gweithdrefnau a pham ei bod yn bwysig gwneud hynny

Cwmpas/Ystod

1. Budd-ddeiliaid

1.1 cydweithwyr ac aelodau'r tîm

1.2 cyfranogwyr

1.3 cleientiaid

1.4 gwylwyr

1.5 perchnogion cyfleusterau

2. * * Arbenigedd penodol

2.1 cynghorydd technegol

2.2 rheolwr gweithgareddau

2.3 rheolwr cyfleusterau

2.4 rheolwr iechyd a diogelwch

2.5 rheolwr llinell

3. Peryglon

3.1 i iechyd, gan gynnwys iechyd emosiynol a neu seicolegol

3.2 i ddiogelwch

3.3 i ddiogeledd

4. * * Gweithdrefnau

4.1 gweithdrefnau gweithredu arferol

4.2 gweithdrefnau gweithredu brys

*

*

5. Risgiau

5.1 i iechyd

5.2 i ddiogelwch

5.3 i ddiogeledd

*

*

6. Cam-drin

6.1 corfforol

6.2 esgeulustod

6.3 emosiynol

6.4 rhywiol

6.5 bwllo

*

*

7. Gweithdrefnau

7.1 gweithdrefnau gweithredu arferol

7.2 gweithdrefnau gweithredu brys

8. **Eraill

8.1 rhieni

8.2 cleientiaid

8.3 aelodau'r cyhoedd sy'n gweithio mewn lleoliadau cyhoeddus neu sydd â hawl dramwy gyhoeddus

8.4 oedolion eraill fel arweinwyr partïon

*

*

9. Adborth

9.1 ffurfiol

9.2 anffurfiol

9.3 cadarnhaol

9.4 negyddol

9.5 awgrymiadau ar gyfer gwella

Sgiliau

Rhestrir isod y prif sgiliau a'r priodoleddau generig sy'n gymwys i'r dasg o gyflwyno Rhaglenni Awyr Agored.

1. Empathi
2. Gwrando'n weithredol
3. Hyfforddi
4. Cyfathrebu
5. Ymgynghori
6. Dylanwadu a pherswadio
7. Dirprwyo
8. Diplomyddiaeth
9. Galluogi
10. Hwyluso
11. Dilyn
12. Arwain drwy esiampI
13. Rheoli ymddygiad heriol
14. Mentora
15. Ysgogi
16. Trafod a chyfaddawdu
17. Sicrhau adborth
18. Cynllunio a gwerthuso
19. Darparu adborth
20. Pennu amcanion
21. Gwerthfawrogi a chefnogi eraill

Geirfa

Peryglon

Perygl yw unrhyw ffynhonnell difrod, niwed neu effeithiau iechyd niweidiol posib ar rywbeth neu rywun dan amgylchiadau arbennig.

Rheoliadau a gweithdrefnau'r sefydliad

Yn nodweddiadol, bydd y dogfennau hyn yn gosod y safonau, gweithdrefnau a'r gofynion ar gyfer cyflwyno'r gweithgaredd. Gallant gynnwys rhestr cyfarpar, amlinelliad o gynlluniau sesiwn, pwyntiau a gweithdrefnau diogelwch. Gallant hefyd gyfeirio at gyrff llywodraethol Cenedlaethol (CLIC) penodol neu gyrff gweithgarwch cenedlaethol eraill perthnasol yn nhermau gwybodaeth a chanllawiau sy'n ymwneud â gweithgareddau. Gall y dogfennau hefyd gyfeirio at lefelau staffio yn nhermau cymarebau, cymwysterau a'r hyfforddiant/asesiad yr ymgwymerwyd ag e, a gall fod ynghlwm wrth CLIC, ymgynghorwyr technegol a nodweddion allanol neu fewnol eraill.

Cam-drin posib

Gall cyfranogwyr sydd o bosib wedi bod yn ddioddefwyr rhyw fath o gam-drin arddangos arwyddion a dangosyddion (heblaw siarad yn uniongyrchol am y mater). Oddi mewn i'ch swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau, gallwch ddysgu am yr arwyddion a'r dangosyddion hyn er mwyn i chi o bosib allu cefnogi unigolion.

Bydd eich hyfforddiant wedi eich paratoi ar gyfer yr agwedd bwysig hon o'ch swyddogaeth a byddwch wedi dysgu bod yna wahanol fathau o gamdrin. Mae'n amlwg bod hwn yn faes cymhleth a sensitif ac mae bob tro'n beth doeth trafod unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd gennych gyda chydweithiwr mwy profiadol a/neu gydweithiwr hŷn ac er mwyn sicrhau eich bod yn dilyn rheoliadau a gweithdrefnau eich sefydliad.

*

*

Eraill

Pobl e.e. cyfranogwyr, athrawon cysylltiedig ac arweinydd parti/oedolion eraill. Gall hefyd gynnwys budd-ddeiliaid eraill cysylltiedig, o ysgolion, awdurdodau lleol a rhywrai eraill sydd â diddordeb.

Arbenigedd penodol

Mae darparwyr awyr agored wedi penodi neu enwi staff sydd ag arbenigedd penodol mewn iechyd a diogelwch a rheoli risg, boed hynny mewn sefydliad bach neu fawr.

Cyfranogwyr sy'n agored i niwed

Gall hyn fod yn bobl ifanc, y rhai hynny sydd ag anghenion arbennig, ond mae hefyd yn ddibynnol ar weithgaredd – gall fod y rhai hynny sy'n ofni rhyw agwedd ar y gweithgaredd; gall fod y rhai hynny sydd â chyflwr neu angen meddygol, fel yr henoed. Rhaid i 'agored i niwed' fod yn fwy na dim ond dan 18 oed a'r rhai sydd ag AAA – rhaid i'r peth fod yn berthnasol i sefyllfa.

Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r safon hon yn cyplysu â SKAOP1, SKAOP2, SKAOP7, SKAOP10 a SKAOP12

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	28 Chwef 2014
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2018
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SA44NC27
Galwedigaethau perthnasol	Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt a Galwedigaethau Technegol, Hamdden; teithio a thwristiaeth, Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Galwedigaethau Chwaraeon a Ffitrwydd
Cyfes/Set	Rhaglenni Awyr Agored, Rheoli Hamdden, Datblygu Chwaraeon
Geiriau Allweddol	lechydd; diogelwch; lles; diogeledd; cwsmeriaid; staff; awyr agored; gwarchodaeth; risgiau; peryglon; gweithdrefnau; camdrin